**PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL**

**2il MEHEFIN 2021**

# RHAGLEN

## DATGAN BUDDIANNAU

**Atgoffir yr Aelodau'n barchus bod angen iddynt ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.**

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr Aelodau am absenoldeb.

**2. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – MAI 2021**

Derbyn adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

**3. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)**

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

**4. CYLCH GORCHWYL PWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU**

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig) yn gofyn am gadarnhau cylch gorchwyl pwyllgorau ac is-bwyllgorau'r Cyngor.

**5. DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU CYMRU 2021**

Ymhellach i Gyfarfod Blynyddol y Cyngor, derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

**6. YMGYNGHORIAD: SUSTRANS AR RAN CYNGOR SIR DDINBYCH – TEITHIO LLESOL – CERDDED A BEICIO YN EICH CYMUNED**

Ymateb i'r ymgynghoriad uchod mewn perthynas â'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol arfaethedig.

Mae modd gweld y map drwy ddilyn y ddolen isod:

**https://denbighshire2.commonplace.is/**

**7. EITEMAU GAN AELODAU**

(i) Y Cynghorydd K. R. Jones – Gofyn am gefnogaeth i fynegi pryderon mewn perthynas â'r nifer cynyddol o e-sgwteriaid sy'n cael eu defnyddio yn y Rhyl a'r gwrthdaro posibl gyda cherddwyr a thraffig y ffordd.

(ii) Y Cynghorydd A. S. Johnson – Gofyn am gefnogaeth i'r Cyngor gychwyn ymgyrch i gynyddu ymwybyddiaeth yn ardal y Rhyl o effaith negyddol sylwadau/camdriniaeth llafar rhywiaethol ar les merched ifanc.

(iii) Y Cynghorydd K. R. Jones – Gofyn am gefnogaeth i fynegi pryderon i'r Swyddog Etholiadol ynglŷn â diffyg gwybodaeth a ddarparwyd mewn perthynas ag adleoli Gorsaf Bleidleisio Plastirion yn ystod yr etholiadau yn ddiweddar.

**8. IS-BWYLLGOR CYNNAL A CHADW TIROEDD: COEDEN GOFFA**

Ystyried argymhelliad llafar gan yr Is-bwyllgor Cynnal a Chadw Tiroedd mewn perthynas â'r posibilrwydd o blannu coeden er cof am y trigolion a gollwyd i'r pandemig Covid.

9. **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod wrth hystyried yr eitemau canlynol, am resymau cyfrinachedd.

**10. ADNEWYDDU YSWIRIANT CYNGOR TREF Y RHYL 2021**

Ymhellach i Gyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 19eg Mai 2021, cydnabod penderfyniad yr Is-bwyllgor Asesu Risg mewn perthynas â darparu yswirisnt ar gyfer y Cyngor Tref (copi o adroddiad a gyflwynwyd i'r Is-bwyllgor Asesu Risg yn amgaeëdig).

**11. CRONFA CODI'R GWASTAD Y DU**

Penderfynu ar adroddiad cyfrinachol Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

**12. TERFYNU'R CYFARFOD**

Y Cadeirydd i ddirwyn y cyfarfod i ben.